**LGH-04-02 (min)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 13 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 2.00pm hyd 4.20pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| *Aelodau:* | |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| *Yn bresennol:* | |
| Norma Barry | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |
| Lynne Schofield | Y Gyfarwyddiaeth Gymunedau |

| | |
|---|---|
| John Bader | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Stephen Phipps | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| John Rees | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Francois Samuel | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Dr Harvard Prosser | Is-adran Diogelu'r Amgylchedd |
| John Glyn Jones | Prif Weithredwr, Cymdeithas Tai Clwyd |
| Walis George | Prif Weithredwr, Tai Eryri |
| Digby Bevan | Prif Weithredwr, Cymdeithas Cantref |
| Dylan Hughes | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau rhagarweiniol**

Dywedodd y Cadeirydd fod llawer iawn o wybodaeth wedi dod allan o'r cyfarfod ar 7 Chwefror, a ddefnyddiwyd i wrando ar dystiolaeth lafar bellach ar gyfer yr adolygiad polisi. Unwaith y byddai'r cam casglu tystiolaeth wedi'i gwblhau, byddai'r Pwyllgor yn trafod y materion a oedd yn dod i'r amlwg, yn ystyried argymhellion drafft ac yn cytuno ar yr adroddiad terfynol.

Dywedodd i'r ymweliad ag Ymddiriedolaeth Ddatblygu Ebbw Fach, Blaenau Gwent fod yn llwyddiannus ac y câi nodyn ar y materion a godwyd ei gylchredeg i'r Pwyllgor maes o law.

Cytunodd y Cadeirydd i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y trafodaethau yngln ag amserlen yr haf, yn dilyn cyfarfod y Panel Cadeiryddion ar 26 Chwefror.

Codwyd pryder gan y Pwyllgor yngln â'r cynigion i drefnu cyfarfodydd ychwanegol o bwyllgorau pwnc ar ddyddiau Gwener. Ar hyn o bryd defnyddir dydd Gwener ar gyfer gwaith etholaeth. Byddai hyn yn creu pwysau pellach ar amser yr Aelodau, yn enwedig i'r rheini sydd ag etholaethau yng Ngogledd a Gorllewin Cymru.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Janet Ryder.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaed y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn feddyg teulu.

**Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog**

3.1 Rhoddodd y Gweinidog adroddiad ar yr isod:

- Roedd cynigion wedi dod i law oddi wrth holl brif gynghorau Cymru yngln â'u strwythurau newydd, a fyddai'n dod i rym ym mis Mai. Roedd y swyddogion a'r cyfreithwyr wrthi ar y pryd yn archwilio'r cynigion er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at y gofynion statudol.
- Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar gyfres o gynigion newydd yngln â Lwfansau Cynghorwyr. Roedd yn bwysig cyflwyno lwfansau a oedd yn cydnabod gwerth cynghorwyr ac a fyddai'n ddigonol i annog pobl i gymryd rhan mewn llywodraeth leol.
- Yn dilyn y gostyngiad yn nifer y dangosyddion perfformiad Gwerth Gorau statudol i Barciau Cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn 2001-02, o 172 i 86, cydnabyddid y byddai angen cyfnod o sefydlogrwydd yn 2002-03. Yr oeddid wedi ymgynghori ar y gyfres o ddangosyddion a oedd yn cael eu cynnig ar gyfer 2002-03, a chafwyd cefnogaeth eang i'r cynigion. O ganlyniad, byddai'r awdurdodau lleol yn adrodd ar 89 dangosydd ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn adrodd yn erbyn 17 o ddangosyddion llywodraethu corfforaethol a chynllunio. Câi Gorchymyn yn pennu'r dangosyddion ar gyfer 2002-03 ei wneud yn fuan.
- Roedd y Cynulliad yn rhoi cefnogaeth ariannol i ddwy fenter digartrefedd sy'n debyg i brosiect Canol y Ddinas, sef Prosiect Addysg Shelter Cymru a Gobaith i Bobl Ifanc ym Mhobman. Nod y prosiectau hyn oedd rhoi gwybodaeth ddilys i bobl ifanc am oblygiadau gadael cartref a chodi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd.

- Wrth ddosbarthu'r Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2002-03, byddid yn gwneud i ffwrdd â'r broses gynnig. Ar ôl neilltuo £5.4 miliwn ar gyfer gwariant a weinyddir yn ganolog, byddai'r £51 miliwn sy'n weddill ar gael i'r awdurdodau lleol i ateb blaenoriaethau lleol. Roedd dosbarthiad y Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn cyfateb o ran cyfran i ddyraniad sylfaenol 2001-02. Câi'r fformwla ddosbarthu bresennol ei disodli gan fformwla newydd wedi'i seilio ar ddangosyddion sy'n dangos yr angen cymharol am fuddsoddiad Grant Tai Cymdeithasol. Câi hyn ei gyflwyno yn 2003-04, ar ôl ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac i'r Gymdeithas gytuno i'r drefn newydd.

- Yn ystod cyfarfod y Gweinidog â Chadeiryddion awdurdodau heddlu Cymru a'r Prif Gwnstabliaid, codwyd pryderon mai cynnydd lefel isel yr oedd awdurdodau heddlu Cymru yn ei dderbyn oddi wrth y Swyddfa Gartref yn y grant heddlu. Roedd y Gweinidog wedi cytuno i sefydlu grp gorchwyl a gorffen ar y cyd i edrych ar lefel gyllido gymharol awdurdodau heddlu yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr. Yn dilyn canfyddiadau'r grp, câi sylwadau priodol eu cyflwyno i'r Swyddfa Gartref a'r Trysorlys yngln â newidiadau i'r broses o gyllido'r heddlu.

- Yn dilyn trafodaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, byddid yn ymgymryd â'r gwaith ailbrisio yng nghyswllt y dreth gyngor yn Ebrill 2005. Byddai hyn yn caniatáu amser i ddatblygu cynigion ar y cyd â llywodraeth leol ac i'r Pwyllgor ystyried y cynigion cyn i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud. Câi'r bandiau treth gyngor newydd eu cyhoeddi yn haf 2003 a'r rhestri prisio newydd yn hwyr yn 2004, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2005.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor ar ba mor dderbyniol yw cynigion yr awdurdodau lleol yngln â'u strwythurau gwleidyddol newydd.

- Cefnogai'r Pwyllgor y cynigion a oedd i'w cynnwys yn y canllawiau drafft ar Lwfansau Cynghorwyr, a oedd wedi'u bwriadu i oresgyn y rhwystrau sy'n atal cyfranogiad mewn llywodraeth leol. Cytunai'r Aelodau y byddai'r cynllun terfynu gwasanaeth yn gwobrwyo cynghorwyr sydd wedi rhoi gwasanaeth maith ac yn cynyddu cyfranogiad ymgeiswyr iau. Cytunodd y Gweinidog i gylchredeg manylion pellach i'r Pwyllgor am y cynigion am Lwfansau Dibynyddion a Gofal Plant.

- Croesawai'r Pwyllgor yr ailbrisio a oedd yn cael ei gynnig yng nghyswllt y dreth gyngor. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd yngln â'r ffaith fod taliadau dr yn dal i gael ei seilio ar yr hen werthoedd trethadwy domestig.

- Cytunai'r Aelodau y byddai newidiadau i'r ffordd y dosbarthir y Grant Tai Cymdeithasol yn 2002-03 yn cyflymu'r broses ddyrannu ac yn help pellach i'r awdurdodau lleol ddiwallu anghenion tai lleol. Roedd yna gefnogaeth i ddatblygu fformwla ddosbarthu newydd, wedi'i seilio ar ddangosyddion arfaethedig a fyddai'n dangos yr angen cymharol am fuddsoddiad Grant Tai Cymdeithasol.

**Eitem 4: Ystyried cynigion ar gyfer targedau sydd i'w cynnwys yn Ail Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynhwysiant Cymdeithasol yng Nghymru: LGH-04-02 (p.1)**

4.1 Dywedodd y Gweinidog fod Adroddiad Blynyddol Cyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynhwysiant Cymdeithasol yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r polisïau a'r rhaglenni a oedd yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â thlodi a diffyg mantais cymdeithasol. Yr oeddid yn derbyn bod angen cynnwys targedau gwybodaeth waelodlin, bras fel y gellid olrhain y cynnydd a wneir gan y Cynulliad. Roedd cysylltiad agos rhwng y targedau sy'n cael eu hawgrymu a'r 'Cynllun ar gyfer Cymru' a Chynlluniau Gweithredol y Cynulliad.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Pwyllgor y byddai'n bwysig i'r adroddiad gynnwys targedau penodol a, lle bo hynny'n bosibl, dargedau mesuradwy, y gallai'r Cynulliad weithio tuag atynt. Teimlid y byddai rhai o'r targedau yn anodd i'w mesur.

- Teimlid y byddai cyflawni'r targed o gynyddu nifer y camddefnyddwyr sylweddau sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni trin yn dibynnu'n rhannol ar yr amseroedd aros ar gyfer y rhaglenni hynny.

- Awgrymwyd y dylid cynnwys targedau yn yr adroddiad i ostwng lefel digartrefedd, yn enwedig i ostwng nifer y bobl ddigartref sydd mewn llety dros dro am fwy na chwe mis, gan fod y rhain eisoes ar gael yn gyhoeddus.

- Teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig ymgynghori ag is-adrannau perthnasol o'r Cynulliad wrth bennu targedau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu gwaith. Byddai'n rhaid sicrhau bod targedau yn cael eu gosod o fewn cyd-destun strategol. Nodwyd bod targedau trawsbynciol yn cael eu trafod gyda Gweinidogion priodol.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â sut y gellir sicrhau rhwydwaith swyddfeydd post dichonadwy, yn ymestyn i bob rhan o Gymru, gan nad yw'r prif gyfrifoldeb am y mater hwn yn gorffwys gyda'r Cynulliad. Byddai'n rhaid canfod mesurau arloesol i atgyfnerthu a diogelu darpariaeth gwasanaethau y swyddfeydd post, yn enwedig mewn cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol difreintiedig.

- Croesawai'r Pwyllgor y targedau i gynyddu nifer y gwasanaethau bws sy'n derbyn cymhorthdal yng Nghymru am eu bod yn angenrheidiol yn gymdeithasol, ynghyd â chyflwyno teithio rhad ac am ddim ar fysiau i bensiynwyr. Byddai'n rhaid parhau i ddatblygu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Cytunai'r Aelodau fod dod â gwasanaethau cyhoeddus o fewn cyrraedd i ragor o bobl yn hanfodol wrth fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol.

- Nodwyd nad oedd y targedau a awgrymwyd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad penodol at blant mewn gofal. Awgrymwyd y dylai'r adroddiad gynnwys targedau ychwanegol yn adlewyrchu'r argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad Waterhouse.

4.3 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth benderfynu'n derfynol ar y targedau sydd i'w cynnwys yn yr Ail Adroddiad Blynyddol ar Gynhwysiant Cymdeithasol yng Nghymru.

**Eitem 5: Y Strategaeth Dai Genedlaethol – Y camau a gymerwyd hyd yn hyn i'w rhoi ar waith: LGH-04-02 (p.2)**

5.1 Dywedodd y Gweinidog fod 'Cartrefi Gwell i Bobl Cymru' yn rhoi gweledigaeth glir o ran tai yng Nghymru ynghyd â'r fframwaith y byddai'r Cynulliad yn parhau i weithio oddi mewn iddo i ddatblygu polisïau tai. Yn unol â'r ymrwymiad yn 'Cartrefi Gwell', datblygwyd y Cynllun Gweithredu fel y prif fodd o fonitro cynnydd wrth roi'r Strategaeth Dai Genedlaethol ar waith.

5.2 Dywedodd fod y Fforwm Ymgynghorol Cenedlaethol ar Dai yng Nghymru wedi croesawu cysyniad a ffurf y Cynllun Gweithredu fel y prif fodd o adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd a'i drafod. Roedd y Cynllun yn crynhoi'r holl dargedau a'r camau gweithredu a nodwyd yn 'Cartrefi Gwell', ynghyd ag argymhellion Grp Gorchwyl y Strategaeth Dai na roddwyd sylw penodol iddynt yn y ddogfen strategaeth. Roedd yn fodd o sicrhau bod y gwaith o fonitro'r Strategaeth Dai Genedlaethol yn agored a thryloyw.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor yr hyn a gyflawnwyd hyd yma o ran rhoi'r Strategaeth Dai Genedlaethol ar waith a chytunai y dylid defnyddio'r Cynllun Gweithredu fel y prif gyfrwng i adrodd ar yr hyn a gyflawnir i'r dyfodol.

- Nododd yr Aelodau fod cyllid o £587,000 wedi ei ddarparu i wyth awdurdod lleol er mwyn iddynt ymgymryd ag arolygon cyflwr stoc. Awgrymwyd y dylid annog yr awdurdodau lleol eraill i gynnal arolygon, cyn gynted ag sy'n ymarferol. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at yr awdurdodau lleol hyn yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb i gynnal arolygon cyflwr stoc.

- Croesawai'r Pwyllgor y Cyd-fodel Cymunedol a oedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer trosglwyddo stoc tai. Teimlid y dylid annog awdurdodau lleol, a oedd yn bwriadu trosglwyddo eu stoc tai, i ystyried y model fel opsiwn. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i dynnu sylw at werth y Cyd-fodel Cymunedol yng nghyswllt trosglwyddo stoc tai.

- Awgrymwyd y dylid rhoi rhagor o bwyslais ar ddatblygu a hyrwyddo'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref. Tynnodd Aelodau sylw at werth posibl y Cynllun wrth fynd i'r afael â phroblemau iechyd ymysg yr henoed.

- Cytunodd y Gweinidog i godi'r cwestiwn o gynnwys safonau 'Cartrefi Gydol Bywyd' yn anneddau y sector preifat gyda cynrichiolwyr adeiladu tai.

5.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys ‘Cartrefi Gwell i Bobl Cymru’ yn ei flaen. Gwahoddodd y Gweinidog i roi adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni o ran rhoi'r Strategaeth ar waith.

**Eitem 6: Cyflwyniad gan Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru ynghylch materion sy’n ymwneud â thai yng nghefn gwlad: LGH-04-02 (p.3)**

6.1 Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru i'r cyfarfod a gwahoddodd nhw i roi eu cyflwyniad gerbron y Pwyllgor.

6.2 Amlinellodd John Glyn Jones y pwysau ar dai mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd fod cymunedau Cymraeg eu hiaith yn wynebu argyfwng oherwydd allfudo sy'n cael ei achosi gan bwysau economaidd a diffyg tai fforddiadwy. Yn ogystal, roedd cynnydd yn y mewnfudo yn peri i'r problemau mewn ardaloedd gwledig fynd yn waeth.

6.3 Awgrymodd fod angen mesurau pellach i roi syw i'r problemau tai mewn ardaloedd gwledig ac y dylid rhoi ystyriaeth i ddatblygu strategaeth glir, yn cynnwys targedau buddsoddi.

6.4 Câi'r pwysau ar dai yng Nghymru ei briodoli i amrywiaeth eang o ffactorau ac roedd yn amrywio rhwng ardaloedd â'i gilydd. Byddai'n rhaid datblygu atebion gwahanol i ymdrin â phroblemau gwahanol.

6.5 Amlinellodd Walis George sut y mae'r cynllun Homebuy yn gweithio yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Croesawai'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r gefnogaeth ychwanegol i'r cynllun, a gyllidir gan y Grant Tai Cymdeithasol. Teimlid bod Homebuy yn llwyddiannus mewn ardaloedd a nodweddir gan incwm isel a phrisiau tai uchel. Fodd bynnag, roedd yna bryder fod awdurdodau lleol yn anghyson o ran y flaenoriaeth a roddant i'r cynllun. Byddai'n bwysig gwerthuso effeithiolrwydd y cynllun wrth ymdrin ag anghenion cymunedau gwledig.

6.6 Tynnodd Digby Bevan sylw at lwyddiant diweddar Homebuy yng Ngheredigion a Gogledd Sir Benfro.

6.7 Dywedodd fod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi bod yn defnyddio mwy a mwy o adnoddau dros y blynyddoedd diwethaf i brynu ac adnewyddu tai sy'n bodoli'n barod. Roedd y gost o gynnal a chadw'r tai hyn yn aml yn golygu anfantais ariannol i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a dylid cymryd hynny i ystyriaeth wrth ddyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol.

6.8 Roedd pobl yn derbyn yn gyffredinol fod codi tai newydd, lle nad oes yn rhaid talu TAW, yn fwy deniadol yn ariannol nag adnewyddu tai hn. Fodd bynnag, teimlid bod datblygiadau newydd

yn aml yn cael effaith niweidiol ar gymunedau gwledig.

6.9 Awgrymwyd bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig yn chwarae rôl bwysig yn cefnogi'r economi leol. Yn ogystal, awgrymwyd y gallent wneud cyfraniad sylweddol at amcanion economaidd a datblygu cymunedol ehangach yng nghefn gwlad drwy weithio mewn partneriaeth â chyrff allweddol i gyd-drefnu strategaethau.

6.10 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunai'r Pwyllgor fod tai yn elfen annatod yn nichonoldeb diwylliannol a ieithyddol cymunedau. Roedd yn holl-bwysig fod mesurau ar gael i helpu pobl i aros yn eu cymuned leol. Rhaid oedd mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at y broblem tai yng nghefn gwlad, yn cynnwys ystod o fesurau a fyddai'n adlewyrchu amrywiaeth o ddaliadaethau.

- Cytunai'r Aelodau fod y Strategaeth Dai Genedlaethol yn darparu fframwaith i weithredu o'i fewn i fynd i'r afael â phroblemau tai yng nghefn gwlad. Teimlid bod y mesurau a nodir yn y Strategaeth ar hyn o bryd wedi cymryd rhai camau tuag at liniaru'r pwysau ar dai mewn cymunedau gwledig.

- Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wrth ddatblygu a thywys strategaethau tai lleol ymlaen. Drwy weithio'n well drwy bartneriaeth gellid defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol yn effeithiol ac ymdrin â'r tanwario ar y cyllid a neilltuwyd i Homebuy yng nghefn gwlad. Nodwyd bod y cydweithio rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn amrywio rhwng ardaloedd â'i gilydd.

- Teimlai'r Aelodau y byddai'n bwysig asesu anghenion tai mewn ardaloedd gwledig a datblygu atebion priodol i ddiwallu anghenion cymunedau unigol. Nodwyd bod 30 y cant o'r awdurdodau lleol wedi cynnal asesiadau anghenion tai yn y ddwy flynedd diwethaf ond nad yw'r asesiadau hyn yn aml yn ddigon manwl i allu canfod anghenion ardaloedd gwledig.

- Codwyd pryder gan y Pwyllgor fod awdurdodau lleol yn monitro cytundebau Adran 106 mor llym. Pe na bai'r cytundebau yn cael eu gorfodi yn egniol, teimlid y byddent yn mynd yn ddiystyr. Nodwyd bod cytundebau yn fwy tebygol o lwyddo mewn ardaloedd lle mae gan yr awdurdodau lleol dargedau cynllunio clir.

- Teimlid y dylid rhoi ystyriaeth i wneud Awdurdod Datblygu Cymru yn gyfrifol am fancio tir ar ran Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn ardaloedd gwledig.

6.11 Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru am eu cyflwyniad i'r Pwyllgor ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 7: Cynlluniau Perchentyaeth Cost Isel – Adroddiad ar hynt y gwaith:**

**LGH-04-02 (p.4)**

7.1 Dywedodd y Gweinidog fod Cynlluniau Perchentyaeth Cost Isel yn helpu pobl ar incwm cymharol isel i brynu eu cartrefi eu hunain. Dywedodd fod y rhaglen hefyd yn hybu amrywiaeth o ddaliadaethau a'i bod yn help i ddiwallu anghenion tai lleol.

7.2 Roedd y canllawiau drafft ar weinyddu'r Grant Tai Cymdeithasol yn cynnwys camau gweithredu a fyddai'n gymorth i ddatblygu daliadaeth gymysg a chymunedau cynaliadwy.

7.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y gefnogaeth a oedd yn cael ei darparu drwy'r rhaglen Perchentyaeth Cost Isel. Teimlid y byddai'r Cynlluniau, yn enwedig Homebuy, yn help i bobl leol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith aros yn eu cymunedau. Croesawai'r Aelodau y cyllid cyfatebol ychwanegol o £1.3 miliwn a ddyrannwyd i Homebuy yng nghefn gwlad.

- Cafwyd rhywfaint o drafod yngln â'r galw am Homebuy yng nghefn gwlad nad yw'n cael ei ddiwallu. Nodwyd bod barn Arweinwyr y Cynghorau Bwrdeistref Sirol wedi ei cheisio yngln â'r mater. Teimlai'r Aelodau y ceid eglurhad pellach yngln â'r galw nad yw'n cael ei ddiwallu wedi i asesiadau anghenion tai yr awdurdodau lleol gael eu cwblhau.

- Roedd y Pwyllgor yn gryf ei gefnogaeth i'r llyfryn ‘Welcome to Welsh speaking Wales’ a oedd wedi ei gyhoeddi. Rhoddai wybodaeth am yr iaith Gymraeg a dwyieithrwydd i fewnfudwyr. Lleisiwyd pryder y byddai rhai gwerthwyr tai yn amharod i ddosbarthu'r wybodaeth. Cytunodd y Gweinidog i roi ystyriaeth bellach i'r posibilrwydd y gallai awdurdodau lleol gynnwys y llyfryn gyda chwiliadau eiddo ar gyfer darpar brynwyr.

- Nododd yr Aelodau y byddai'r Cynllun Disgownt Trosglwyddadwy, yr oedd Cyngor Sir Fynwy yn ei ddefnyddio, yn parhau i fod ar gael. Awgrymwyd bod cynlluniau eraill o bosibl yn fwy buddiol.

7.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys Cynlluniau Perchentyaeth Cost Isel yn eu blaen.

**Eitem 8: Radon mewn eiddo preswyl yng Nghymru: LGH-04-02 (p.5)**

8.1 Dywedodd y Gweinidog fod Radon yn fater difrifol sy'n effeithiol ar filoedd o bobl ar draws Cymru. Gellid gostwng peryglon Radon mewn eiddo preswyl drwy gymryd camau hawdd, parhaol a rhad. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu strategaeth gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r risg o radon yn yr ardaloedd hynny y mae'n fwyaf tebygol yr effeithir arnynt. Roedd y strategaeth yn golygu darparu rhaglen ragweithiol o brofion; darparu amrywiaeth o lenyddiaeth hyrwyddo; a chefnogaeth fwy rhagweithiol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a chyrff eraill sy'n ymwneud â'r maes tai.

8.2 Cefnogai'r Pwyllgor y polisïau yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wrthsefyll y broblem radon mewn eiddo preswyl, yn enwedig y strategaeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

8.3 Cytunodd y Gweinidog i awgrymu wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd y dylai Pwyllgorau y naill a'r llall ystyried mater radon mewn eiddo preswyl.

8.4 Cytunodd y gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynigion pellach i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o berygl radon mewn eiddo preswyl.

**Eitem 9: Blaenraglenni Gwaith Strategol – Ystyried blaenraglenni gwaith pwyllgorau pwnc eraill: LGH-04-02 (p.6)**

9.1 Dywedodd y Cadeirydd fod y blaenraglenni gwaith strategol yn cael eu cylchredeg yn unol â Rheol Sefydlog 9.9 er mwyn ymgynghori â'r Pwyllgor. Dywedodd y câi rhaglenni gwaith y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd eu cylchredeg i'r Aelodau cyn gynted ag y byddent ar gael.

9.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor flaenraglenni gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Teimlai'r Aelodau y byddai'n bwysig ymgynghori â phwyllgorau pwnc eraill ac, os oes raid, cynnal cyfarfodydd ar y cyd, wrth ystyried materion sy'n torri ar draws portffolios Gweinidogion.

**Eitem 10: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr: LGH-02-02 (min)**

10. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr.

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU**

1. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor ar ba mor dderbyniol yw cynigion yr awdurdodau lleol yngln â'u strwythurau gwleidyddol newydd.

2. Cytunodd y Gweinidog i gylchredeg manylion pellach i'r Pwyllgor am y cynigion am Lwfansau Dibynyddion a Gofal Plant sydd i'w cynnwys yn Lwfansau Cynghorwyr.

3. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd yngln â'r ffaith fod taliadau dr yn dal i gael ei seilio ar yr hen werthoedd trethadwy domestig.

4. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at awdurdodau lleol, a nad oedd wedi gwneud arolygon o'i amodau stoc, i'w hatgoffa o'i cyfrifoldebau i'w wneud.

5. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i dynnu sylw at werth y Cyd-fodel Cymunedol yng nghyswllt trosglwyddo stoc tai.

6. Cytunodd y Gweinidog i godi'r cwestiwn o gynnwys safonau 'Cartrefi Gydol Bywyd' yn anneddau y sector preifat gyda cynrichiolwyr adeiladu tai.

7. Cytunodd y Gweinidog i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gynigion pellach i godi ymwybyddiaeth o berygl radon mewn eiddo preswyl.

8. Cytunodd y Gweinidog i awgrymu wrth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd y dylai Pwyllgorau y naill a'r llall ystyried mater radon mewn eiddo preswyl.